



A yw'r cyfryngau'n cael bod yn bresennol yn fy achos llys?

Canllaw ar gyfer defnyddwyr y llys teulu

Ynghylch y daflen hon

Mae'r daflen hon ar gyfer pobl sy'n rhan o unrhyw achos teulu. Mae'n esbonio:

- pam mae'r cyfryngau'n cael bod yn bresennol mewn achosion llys teulu,
- pa bryd nad yw'r cyfryngau'n cael bod yn bresennol mewn achos llys, a
- beth mae'r cyfryngau'n cael adrodd amdano a beth nad ydynt yn cael adodd amdano.

Mae hefyd yn esbonio beth i'w wneud os ydych yn meddwl y dylid gwahardd y cyfryngau o'ch achos, neu os ydych eisiau cwyno am ymddygiad neu adroddiad gohebydd unigol.

Nid yw'r daflen hon yn berthnasol i **achosion mabwysiadu a lleoli** nac i **geisiadau am orchmynion rhiant** (dan y Ddeddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg), gan fod rheolau gwahanol mewn lle ar gyfer y rhain.

Pam mae'r cyfryngau'n cael mynd i mewn i'r llys?

Mae'r cyfryngau wedi gallu bod yn bresennol mewn achosion teulu yn y llysoedd ynadon ers amser maith, ac ers 2009 maent yn cael bod yn bresennol mewn achosion a wrandewir mewn llys sirol ac yn yr Uchel Lys. Mae hyn oherwydd bod gan y cyfryngau ran bwysig i'w chwarae yn yr achosion hyn, gan fod eu hadroddiadau'n gallu helpu'r cyhoedd i ddeall sut mae'r system llysoedd teulu yn gweithio a sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch achosion teulu.

Er mwyn sicrhau bod plant, oedolion bregus a theuluoedd yn cael eu hamddiffyn rhag cyhoeddusrwydd dieisiau, mae cyfyngiadau mewn lle i gyfyngu ar yr hyn y mae'r cyfryngau'n cael adrodd amdano.

A yw'r cyfryngau'n cael bod yn bresennol ym mhob math o achos?

Na, **nid** yw'r cyfryngau'n cael bod yn bresennol mewn:

- unrhyw achos lleoli neu fabwysiadu,

- unrhyw apwyntiad cymodi neu ddatrys anghydfod ariannol – bryd hynny bydd barnwr yn helpu'r partïon i ddod i gytundeb yn eu hanghydfod.

A ellir gwahardd y cyfryngau o unrhyw achos arall?

Gall y llys hefyd benderfynu gwahardd neu gyfyngu ar y cyfryngau:

- os yw'n angenrheidiol er budd unrhyw blentyn sy'n rhan o'r achos neu sydd â chysylltiad â'r achos;
- os oes angen amddiffyn parti neu dyst (neu unigolyn cysylltiedig â pharti neu dyst) – er enghraifft, lle byddai posibilrwydd o risg i ddiogelwch tyst pe byddai'r cyfryngau'n bresennol yn y llys;
- lle byddai, o bosib, yn tarfu ar yr achos pe byddai'r cyfryngau'n bresennol – er enghraifft, os nad oes digon o le yn yr ystafell llys; neu
- lle gallai, fel arall, rwystro cyfiawnder neu fod er anfantais i gyfiawnder – er enghraifft, lle bo risg na fydd tyst yn rhoi tystiolaeth lawn neu onest oherwydd bod y cyfryngau'n bresennol.

Sut fyddaf yn gwybod os bydd y cyfryngau'n bresennol yn fy achos?

Os bydd y cyfryngau'n bresennol yn unrhyw ran o'ch achos, bydd y llys yn gofyn i chi a'r partïon yn yr achos a oes gennych unrhyw bryderon. Os oes gennych bryderon, dylech ddweud wrth y llys, gan gyfeirio at o leiaf un o'r rhesymau (a restrir uchod) y credwch sy'n berthnasol i'ch achos. Bydd y llys wedyn yn penderfynu a ddylid gwahardd y cyfryngau ai peidio.

Fodd bynnag, os yw'r cyfryngau eisiau bod yn bresennol mewn gwrandawriad, nid oes rhaid iddynt gael caniatâd ymlaen llaw gan y llys.

Pa rai o gynrychiolwyr y cyfryngau sy'n cael mynd i mewn i'r llys?

Dim ond cynrychiolwyr sy'n aelodau achrededig o gynllun Cerdyn Gwasg y DU sy'n cael bod yn bresennol mewn achos llys teulu. Dylent wisgo Cerdyn Gwasg y DU (yn dangos eu llun) drwy gydol yr amser, fel y gall staff y llys a'r partïon yn yr achos eu hadnabod yn hawdd. Os bydd unigolyn sy'n cynrychioli'r cyfryngau'n dod i'r llys heb ei Gerdyn Gwasg, ni fydd yn cael bod yn bresennol yn yr achos oni bai fod y llys yn rhoi caniatâd penodol. Ni chaniateir recordio, ffilmio na ffotograffiaeth mewn llysoedd teulu.

A oes rhaid i mi ateb cwestiynau gan y cyfryngau?

Nac oes, nid oes rhaid i chi ddweud dim wrth y cyfryngau os nad ydych yn dymuno gwneud hynny. Os ydych yn siarad â nhw, naill ai yn adeilad y llys neu y tu allan i adeilad y llys, mae angen i chi wybod ei bod hi'n bosib y byddant yn cynnwys yr hyn a ddywedwch mewn adroddiad.

Rhaid i chi gofio hefyd, mewn llawer o achosion, yn enwedig rhai sy'n ymwneud â phlant, mae cyfyngiadau cyfreithiol ar yr hyn y cewch ddweud wrth bobl (gan gynnwys

newyddiadurwyr). Mae hefyd cyfyngiadau ar ba ddogfennau a thystiolaeth a ddefnyddir yn yr achos y cewch ddangos iddynt. Am fanylion y cyfyngiadau hyn, gwelwch daflen **EX710: A gaf i siarad am fy achos y tu allan i'r llys?** sydd ar gael o hmctsformfinder.justice.gov.uk

Mae'n bwysig bod yn ofalus iawn ynghylch yr hyn a ddywedwch wrth bobl am eich achos. Os byddwch yn rhoi manylion na ddylid eu datgelu, gallech fod yn euog o drosedd neu ddirmyg llys.

Sicrhewch eich bod yn gofyn am gyngor gan eich cynrychiolydd cyfreithiol ynghylch beth y cewch ddweud wrth bobl eraill ynghylch yr achos. Os ydych yn cyflwyno'r achos drosoch eich hun, dylech ofyn wrth y barnwr neu'r ynadon.

Beth mae'r cyfryngau'n cael adrodd amdano?

Mae'r hyn y mae'r cyfryngau'n cael adrodd amdano'n dibynnu ar y math o achos.

- Mewn achosion priodasol, yn gyffredinol, mae'r cyfryngau'n cael cynnwys y canlynol mewn adroddiad: enwau a chyfeiriadau partïon, amlinelliad o'r sail a'r amddiffyniadau yn yr achos, pwyntiau cyfreithiol, a dyfarniadau'r barnwr.
- Mewn achosion cyllid priodasol, megis gorchmynion cynhaliath ac ad-drefnu perchnogaeth eiddo wedi ysgariad, fel arfer caiff y cyfryngau gyhoeddi:
 - enwau, cyfeiriadau a galwedigaethau'r partïon a'r tystion;
 - datganiad cryno o sail y cais a'r amddiffyniadau a gyflwynwyd;
 - argymhellion ar unrhyw bwynt cyfreithiol; ac
 - y dyfarniad.

Nid ydynt yn cael adrodd am yr hyn a ddigwyddodd yn yr achos nac am wybodaeth a thystiolaeth a ddatgelwyd mewn perthynas â'r achos gan y partïon ar lafar neu a oedd wedi'u cynnwys mewn dogfennau a ffeiliwyd yn yr achos, oni bai fod y llys wedi rhoi caniatâd.

- Mewn achosion plant, mae llawer iawn mwy o gyfyngiadau ar adrodd. Yn gyffredinol, mae angen i'r llys roi caniatâd i unrhyw un gyhoeddi:
 - unrhyw fanylion a allai beri i rywun adnabod y plentyn fel testun yr achos;
 - unrhyw wybodaeth ynghylch yr hyn sydd wedi digwydd, neu wedi cael ei ddweud, yn y llys; ac
 - unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn dogfennau yn yr achos.
- Mewn achosion trais domestig, mae'r rheolau ynghylch beth y ceir adrodd amdano'n amrywio, yn dibynnu ar ffeithiau'r achos. Os oes plant yn rhan o'r achos, mae'n debygol y bydd llawer iawn mwy o gyfyngiadau ar adroddiadau na sydd pan fo plant yn rhan o'r achos.

Os nad ydych yn siŵr, neu os nad yw math eich achos chi wedi'i gynnwys yn y rhestr hon, siaradwch â'ch cynrychiolydd cyfreithiol. Os ydych yn cyflwyno eich achos drosoch eich hun, dylech ofyn wrth y barnwr neu'r ynadon.

Beth nad yw'r cyfryngau'n cael adrodd amdano?

Os bydd y cyfryngau'n bresennol mewn achos llys, nid yw'n golygu eu bod yn cael adrodd am bopeth a ddywedir yn y llys neu enwi'r partïon sy'n rhan o'r achos.

Mewn rhai mathau o achosion, ceir cyfyngiadau cyfreithiol y mae'n rhaid i'r cyfryngau eu dilyn. Er enghraifft, mae'n drosedd cyhoeddi:

- gwybodaeth am blentyn, megis ei enw, cyfeiriad ei ysgol neu ei gartref a allai beri i bobl ddod i wybod pwy yw'r plentyn hwn a'i fod yn rhan o'r achos; a; and
- manylion unrhyw bartïon neu dystion a allai hefyd beri i bobl ddod i wybod pwy yw'r plentyn a'i fod yn rhan o'r achos.

Ceir cyfyngiadau eraill sy'n ei gwneud hi'n ddirmyg llys i unrhyw un, gan gynnwys y cyfryngau, gyhoeddi manylion yr hyn sydd wedi digwydd mewn achos llys sy'n ymwneud â lles neu gynhaliaeth plentyn (mae hyn yn cynnwys manylion yr hyn a ddywedodd cyfreithwyr, y barnwr, y partïon a thystion, yn ogystal â chynnwys unrhyw ddogfennau).

Mewn rhai achosion, gall y barnwr osod cyfyngiadau ychwanegol ar yr hyn y gellir ei adrodd. Gall hefyd benderfynu llacio rhai o'r cyfyngiadau neu'r cwbl ohonynt.

A yw'r cyfryngau'n cael gweld unrhyw ddogfennau a ddefnyddir yn fy achos?

Na, yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw'r cyfryngau'n cael gweld dim dogfennau - oni bai fod y barnwr yn rhoi caniatâd.

Fodd bynnag, mewn materion priodasol neu faterion partneriaeth sifil, mae'n bosib i unrhyw un – gan gynnwys y cyfryngau – gael copi o'r dyfarniad nisi/absoliwt neu'r gorchymyn amodol/terfynol mewn achosion partneriaeth sifil.

Mewn achosion plant, mae'r partïon neu eu cynrychiolydd cyfreithiol yn cael datgelu gwybodaeth i newyddiadurwr – cyn belled â'u bod yn gwneud hyn er mwyn cael cyngor a chefnogaeth neu er mwyn ymchwilio i gŵyn. Mae'n rhaid i'r newyddiadurwr barhau i ddilyn y cyfyngiadau adrodd ac, felly, nid yw'n cael pasio'r wybodaeth ymlaen neu gyhoeddi'r wybodaeth i'r cyhoedd, neu ran o'r cyhoedd.

Cyhoeddodd Llywydd yr Adran Teulu Gyfarwyddyd Ymarfer ar 16 Ionawr 2014 ynghylch 'Tryloywder mewn Llysoedd Teulu – Cyhoeddi Dyfarniadau' (gweler <http://www.judiciary.gov.uk/Resources/JCO/Documents/Guidance/transparency-in-the-family-courts-jan2014.pdf>).

O ganlyniad, mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, gall farnwr Cylchdaith neu Farnwr Uchel Lys orchymyn bod fersiwn o ddyfarniad y llys nad yw'n cynnwys enwau yn cael ei gyhoeddi ar wefan Sefydliad Gwybodaeth Gyfreithiol Prydain ac Iwerddon yn unig. Efallai y bydd rhaid talu ffi.

Am fanylion ynghylch sut y gellir rhannu gwybodaeth y tu allan i'r llys, gweler taflen

EX710: A gaf i siarad am fy achos y tu allan i'r llys? sydd ar gael o hmctsformfinder.justice.gov.uk

Beth sy'n digwydd os ydych chi eisio gwneud cwyn am y cyfryngau?

IOs ydych chi yn bryderus ynghylch ymddygiad ac adroddiadau newyddiadurwr penodol neu sefydliad cyfryngau, gallwch wneud cwyn yn y ffordd hyn:

- Comisiwn Cwynion y Wasg

Mae gan y Cod Ymarfer i Olygyddion ganllawiau clir ar safonau adrodd ar gyfer materion teuluol a materion plant mewn papurau newydd a chylchgronau. I gael gwybodaeth am y safonau hyn a sut i wneud cwyn, ewch i www.pcc.org.uk

- Awdurdod Cerdyn Gwasg y DU

Yr awdurdod hwn sy'n goruchwyllo cynllun achredu'r cyfryngau. Gallwch gwyno i'r sefydliad sy'n cynrychioli'r newyddiadurwr penodol ac sydd wedi rhoi Cerdyn Gwasg y DU iddynt (mae enw'r sefydliad ar y cerdyn). Am restr o'r holl sefydliadau a'u manylion cyswllt, ewch i www.ukpresscardauthority.co.uk

Ble gaf i ragor o wybodaeth?

Am fwy o wybodaeth ynghylch y rheolau trefniadaeth ar gyfer mynediad y cyfryngau at achosion llys teulu, ewch i: www.justice.gov.uk

Amdanom ni

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r asiantaeth yn gyfrifol am weinyddu'r llysoedd troseddol, y llysoedd sifil, y llysoedd teulu a'r triwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr, a'r triwlynlysoedd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n darparu system gyfiawnder deg, effeithlon ac effeithiol a weithredir gan farnwriaeth annibynnol.

Nod Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yw sicrhau bod pob dinesydd yn cael mynediad prydlon at gyfiawnder yn unol â'u gwahanol anghenion, boed y dinasyddion hynny'n ddioddefwyr troseddau neu'n dyst iddynt, yn ddiffynyddion a gyhuddwyd o gyflawni troseddau, yn ddefnyddwyr mewn dyled, yn blant mewn perygl o niwed, yn fusnesau sydd mewn anghydfodau masnachol neu'n unigolion sy'n mynnu eu hawliau cyflogaeth neu'n herio penderfyniadau cyrff y llywodraeth.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.justice.gov.uk/about/hmcts

I bobl ag anabledd

Os oes gennych anabledd sy'n golygu bod mynd i'r llys neu gyfathrebu yn anodd i chi, ac neu fod arnoch angen unrhyw wybodaeth ar ffurf arall, er enghraifft, print bras, cysylltwch â'r llys perthnasol a gallant eich helpu chi. Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer pob un o'n llysoedd ar-lein yn courtribunalfinder.service.gov.uk